**EITEM AR YR AGENDA: 8**

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

**21 Mawrth 2016**

## STRATEGAETH CRONFEYDD WRTH GEFN

**Adroddiad gan Dawn Docx, Dirprwy Brif Swyddog Tân a Thrysorydd am y tro**

## Diben yr Adroddiad

1 Mae'r adroddiad hwn yn darparu gwybodaeth i'r Aelodau am y cronfeydd sydd gan yr Awdurdod wrth gefn, ynghyd â gwybodaeth gefndirol am reoli cronfeydd wrth gefn yng nghyd-destun awdurdod lleol. Gofynnir i'r Aelodau:
   - (i) nodi cynnwys yr adroddiad am y cronfeydd sydd gan yr awdurdodau wrth gefn;
   - (ii) cymeradwyo'r strategaeth yn Atodiad 1 fel sail ar gyfer rheoli cronfeydd defnyddadwy'r Awdurdod Tân ac Achub.

## Cefndir

2 Mae'r Awdurdod Tân ac Achub yn wahanol i awdurdodau lleol eraill oherwydd caiff ei ariannu gan gyfraniadau gan y chwe awdurdod cyfansoddol yng Ngogledd Cymru, felly nid awdurdod praeseptio na bilio mohono. Ond er mwyn deall y cefndir i gadw cronfeydd wrth gefn, bydd yn fuddiol i'r Aelodau gan rhywfaint o gyd-destun ehangach.

3 I awdurdodau praeseptio a bilio (cynghorau sir, cynghorau cymuned a thref ac awdurdodau heddlu), mae'r gofyniad i gael cronfeydd ariannol wrth gefn yn cael ei gydnabod mewn statud. Mae Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdodau hyn ystyried lefel y cronfeydd wrth gefn sydd eu hangen er mwyn cwrdd â'r gwariant a amcangyfrifir yn y dyfodol wrth gyfrifo gofynion eu cyllidebau. Dyma ddeddfwriaeth arall o blaid dal cronfeydd ac adrodd ynghylch cronfeydd:

- dyletswydd y Prif Swyddog Cyllid i adrodd ynghylch pa mor gadarn yw'r amcangyfrifon a pha mor ddigonol yw'r cronfeydd wrth gefn (dan Adran 25 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003) pan fo awdurdod yn ystyried ei ofyniad ar gyfer y gyllideb (awdurdodau praeseptio a bilio)

- y gofyniad deddfwriaethol ar bob awdurdod lleol i wneud trefniadau i weinyddu ei faterion ariannol yn briodol

- mae'r Prif Swyddog Cyllid (y swyddog dynodedig) yn gyfrifol am weinyddu'r materion hynny a nodir yn Adran 112 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 (sy'n benodol i awdurdodau tân cyfunol)

- mae Adran 114 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Prif Swyddog Cyllid adrodd i'r awdurdod llawn os oes, neu os yw'n debygol y bydd, gwariant anghyfreithlon neu gyllideb anfantoledig. Byddai hyn yn cynnwys sefyllfaoedd pryd y mae cronfeydd wrth gefn wedi prinhau'n ddifrifol, ac os rhagwelir na fydd gan yr awdurdod yr adnoddau i gwrdd â'i wariant mewn rhyw flwyddyn ariannol neu'i gilydd.

4 Mae Gorchymyn Gwasanaethau Tân ac Achub Gogledd Cymru (Cynllun Cyfuno) 1995 yn darparu ar gyfer cyflogi trysorydd sy'n swyddog priodol i weinyddu materion ariannol yr Awdurdod Tân ac Achub.

5 Mae'r Gorchymyn yn pennu hefyd sut y mae cyfraniadau'n daladwy gan awdurdodau cyfansoddol, gan gynnwys talu unrhyw gyfraniadau diwygiedig os bydd yr amcangyfrifon gwreiddiol yn annigonol i gwrdd â'r gwariant net. Byddai cyfraniadau o'r fath yn golygu baich annisgwyl a sylweddol ar gyllidebau cynghorau.

6 Cyn 2009, nid oedd awdurdodau tân ac achub yng Nghymru yn cael dal cronfeydd wrth gefn oherwydd nid oedd y ddeddfwriaeth ond yn caniatáu i awdurdodau bilio a phraeseptio ddal cronfeydd. Fe wnaeth Llywodraeth Cymru basio 'Gorchymyn Cynlluniau Gwasanaethau Tân ac Achub Cyfunol (Amrywio) (Cymru) 2009' i gydnabod y baich posibl ar gyllidebau cynghorau petai angen cyfraniad ychwanegol ar yr awdurdod mewn rhyw flwyddyn neu'i gilydd. Golygai hyn fod gan awdurdodau tân yng Nghymru sail

statudol ar gyfer dal cronfeydd. O 2009 ymlaen, bu defnyddio cronfeydd wrth gefn yn rhan hanfodol o reoli materion ariannol yr Awdurdod Tân ac Achub ac mae hyn wedi sicrhau na fyddai angen am unrhyw gyfraniadau diwygiedig yn unrhyw flwyddyn.

7 Mae Cod Ariannol CIPFA yn ei gwneud yn ofynnol i Brif Swyddogion Cyllid mewn awdurdodau lleol roi ystyriaeth lwyr i fforddiadwyedd wrth wneud argymhellion ynglŷn â rhaglen gyfalaf yr awdurdod ar gyfer y dyfodol. Mae ystyriaeth o'r fath yn cynnwys lefel yr adnoddau (gan gynnwys y cronfeydd wrth gefn) sydd ar gael iddo.

8 Arfer dda i awdurdod yw cadw at Gynllun Ariannol Tymor Canolig, sy'n cynnwys yr angen i gael cronfeydd ac i ddefnyddio cronfeydd dros y cyfnod dan sylw.

9 Ar hyn o bryd, nid oes rôl uniongyrchol i weinidogion benderfynu neu gynghori ynghylch lefel briodol y cronfeydd i awdurdodau penodol. Mater i benderfynu arno yn lleol yw hyn oherwydd y risgiau penodol, yr amgylchiadau a'r cynlluniau sy'n gyffredin ar y pryd.

## Y CRONFEYDD SY'N CAEL EU DAL

10 Mae awdurdodau'n dal gwahanol fathau o gronfeydd wrth gefn. Mae'r fantolen yn cynnwys dau gategori, sef cronfeydd defnyddadwy ac annefnyddadwy. Caiff cronfeydd annefnyddadwy eu creu oherwydd cofnodion cyfrifyddu technegol sy'n sicrhau bod holl ymrwymiadau'r awdurdod yn cael eu hadlewyrchu yn y fantolen ac na ellir felly eu defnyddio i ddarparu gwasanaethau.

11 O ran cronfeydd defnyddadwy, mae'r Awdurdod Tân ac Achub yn dal y canlynol:

| **Math o Gronfa** | **Rhesymeg** |
|---|---|
| Cronfa Gyffredinol | Lleddfu effaith digwyddiadau annisgwyl, argyfyngau a llif arian anwastad. Ymorol am gostau trosglwyddo cynlluniau na ellid eu hariannu o'r gyllideb refeniw. |

| Math o Gronfa | Rhesymeg |
|---|---|
| Cronfeydd a Glustnodwyd | Dyma symiau a “glustnodwyd” ar gyfer eitemau penodol o wariant, a chânt eu diffinio fel cam gwirfoddol gan yr Awdurdod i neilltuo adnoddau ar gyfer cynlluniau yn y dyfodol. Fel arfer, caiff cronfeydd a glustnodwyd eu dal am y rhesymau canlynol:<br><br><u>Prosiectau na chwblhawyd mewn blwyddyn:-</u><br>Pan na fu modd cwblhau prosiectau penodol o fewn y flwyddyn pryd y mae cyllideb wedi’i dyrannu, defnyddir cronfeydd wrth gefn fel mecanwaith i gario’r adnoddau hyn drosodd.<br><br><u>Cronfeydd eraill a glustnodwyd:-</u><br>Gellid eu sefydlu o bryd i’w gilydd i danategu cyllidebau yn y dyfodol ac ariannu cynlluniau a gymeradwyir gan yr Awdurdod. |

12 Bydd yr Awdurdod hefyd yn cadw darpariaethau’n unol â’r diffiniadau sydd yn y cod ymarfer ar gyfrifyddu. Dyma pryd mae ymrwymiadau penodol yn hysbys a phryd mae modd gwneud amcangyfrif dibynadwy o’r ymrwymiad.

## EGWYDDORION AR GYFER PENDERFYNU AR LEFEL CRONFEYDD WRTH GEFN

13 Bydd natur y risg sy’n wynebu’r Awdurdod yn penderfynu ar lefel y cronfeydd sy’n cael eu dal.

14 Dylai’r asesiad risg ymdrin â risg allanol a risg mewnol, gan gynnwys rhagolygon adnoddau tymor canolig ynghyd â llwyddiant, neu aflwyddiant, wrth sicrhau arbedion.

15 Yn ariannol, caiff y risgiau canlynol eu hystyried:

| Sefyllfa ariannol | Sefyllfa ariannol gyffredinol yr awdurdod |
|---|---|
| Rheolaeth ariannol | Hanes yr awdurdod o ran rheoli’r gyllideb a rheolaeth ariannol, gan gynnwys pa mor gadarn yw’r cynlluniau tymor canolig |
| Trin arbedion effeithlonrwydd a gynlluniwyd | Cryfder yr wybodaeth ariannol a’r trefniadau rheoli prosiectau |

| **Sefyllfa ariannol** | **Sefyllfa ariannol gyffredinol yr awdurdod** |
|---|---|
| Trin pwysau sy'n cael eu harwain gan y galw | Gallu'r awdurdod i reoli pwysau ar y gyllideb yn ystod y flwyddyn, a'i strategaeth ar gyfer rheoli'r galw a'r gwasanaeth yn y tymor hir |
| Trin chwyddiant | Sut gellir trin amrywiadau yn yr amcangyfrifon, ac a yw'r cronfeydd wrth gefn yn ddigonol i ymdrin â chynyddiadau annisgwyl |
| Cyfraddau llog | Sut bydd newidiadau yn y cyfraddau llog yn effeithio ar fenthyca neu incwm o ystyried y strategaeth rheoli'r trysorlys y cytunwyd arni |
| Y risgiau ariannol sy'n ymhlyg mewn unrhyw brosiectau sylweddol | Gall y rhain gynnwys canlyniadau caffael, materion contractio, trafodion tir ac ati |
| Pa mor ddigonol yw yswiriant yr awdurdod i ymorol am y risgiau | Dylid defnyddio asesiadau risg wrth fantoli'r strwythur a lefel yr yswiriant |
| Yr hinsawdd ariannol yn gyffredinol | Ffactorau allanol megis ffioedd cyllido yn y dyfodol, y tirlun gwleidyddol, amodau economaidd y byd |

## RHEOLI CRONFEYDD WRTH GEFN

16 Mae nifer o adroddiadau ar gael i roi arweiniad i Aelodau ar reoli cronfeydd wrth gefn.

17 Mae adroddiad y Comisiwn Archwilio, *'Striking a balance – Improving Councils' decision making on reserves'* Rhagfyr 2012, yn cynnig datganiad clir ynghylch rôl yr Aelodau yn hyn o beth. Rhestrir isod y cwestiynau sydd yn yr adroddiad, ynghyd â'r mecanwaith a ddefnyddir i gyflawni'r gofyniad i adrodd a sicrhau tryloywder:-

| **Cwestiwn** | **Adroddir i'r Aelodau** |
|---|---|
| Faint o arian sydd mewn cronfeydd wrth gefn? | Adroddir hyn yn y datganiad o gyfrifon, yr adroddiad ar berfformiad ariannol, a'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig |
| Sut mae'r cronfeydd wrth gefn wedi newid yn y blynyddoedd diweddar? | Adroddir yn y datganiad o gyfrifon, yr adroddiad ar berfformiad ariannol a'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig |

| **Cwestiwn** | **Adroddir i’r Aelodau** |
|---|---|
| Sut mae’r newidiadau’n cymharu â’r rhai a wnaed gan Awdurdod sy’n wynebu amgylchiadau tebyg? | Data cymaryddion a adroddir fel rhan o’r adroddiad perfformiad ariannol |
| Ar gyfer beth y caiff y cronfeydd eu dal? | Adroddir yn y datganiad o gyfrifon, yr adroddiad ar berfformiad ariannol a’r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig |
| Ar gyfer pa risgiau neu gynlluniau gwario ar gyfer y dyfodol y mae’r Awdurdod yn dal cronfeydd? | Adroddir yn y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig a’r datganiad o gyfrifon |
| Pa gyfran o’r cronfeydd sy’n cael ei dal i ymorol am risg ariannol tymor byr o gymharu â risgiau tymor hir, ac i ymorol am gynlluniau gwario penodol. | Adroddir yn y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig a’r datganiad o gyfrifon |
| A yw lefelau gwahanol gronfeydd yr Awdurdod yn briodol i’r risgiau y mae’n eu hwynebu a maint ei gynlluniau gwario ar gyfer y dyfodol? | Adroddir yn y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig a’r datganiad o gyfrifon |
| Sut penderfynir ar yr angen am gronfeydd? | Wrth ddefnyddio’r strategaeth hon |
| Ar ba adeg(au) yn y flwyddyn ariannol yr asesir yr angen am gronfeydd? | Adroddiadau i’r ATA ym mis Rhagfyr, Mawrth a Mehefin |
| A yw’r cysylltiad rhwng gwariant, incwm, symudiadau ar gronfeydd yn glir i’r aelodau etholedig a’r cyhoedd? | Adroddir yn y datganiad o gyfrifon a’r adroddiad ar berfformiad ariannol |
| Ymhob un o’r tair blynedd ddiwethaf, pa wahaniaeth a fu rhwng y symudiadau ar gronfeydd a ddisgwyliai’r Awdurdod wrth osod ei gyllideb a’r symudiadau a ddigwyddodd wrth gau’r cyfrifon | Adroddir i’r Aelodau yn yr adroddiadau alldro a’r adroddiad ar berfformiad ariannol |
| Faint o’r amrywiad oedd o ganlyniad i ffactorau o fewn rheolaeth yr Awdurdod | Adroddiad ar berfformiad ariannol |
| Cyngor gan y prif swyddog cyllid ar lefel y cronfeydd sy’n cael eu dal yn ei gwneud yn glir pa gronfeydd sydd eu hangen a pham | Adroddir ynghylch y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig, yr adroddiad ar berfformiad ariannol, a’r datganiad o gyfrifon |

## ADRODD YNGHYLCH CRONFEYDD WRTH GEFN

18 Mae’r Codau Ymarfer ar Gyfrifyddu yn penderfynu ar y gofynion adrodd ynghylch cronfeydd wrth gefn. Mae’r sylwadau diweddar ar gyni a lefel y cronfeydd y mae awdurdodau’n eu dal wedi arwain at drefniadau adrodd sy’n gliriach ac yn fwy tryloyw. Mae arferion gorau’n awgrymu y dylid adrodd yr wybodaeth ganlynol mewn perthynas â phob cronfa:

- y rheswm dros y gronfa
- sut a phryd gellir defnyddio’r gronfa a sut a phryd y caiff ei defnyddio
- prosesau rheoli
- adolygu’r mecanweithiau.

19 Dylai’r adroddiad ar y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig gynnwys unrhyw ddefnydd o gronfeydd wrth gefn er mwyn cwrdd â chostau cylchol.

20 Bydd yr adroddiad yn cynnwys datganiad gan y Trysorydd ynglŷn â pha mor ddigonol yw’r cronfeydd cyffredinol ar gyfer y flwyddyn ariannol i ddod, a strategaeth ariannol tymor canolig yr Awdurdod.

21 Bydd yr adroddiad ar berfformiad ariannol ar ddiwedd y flwyddyn ariannol yn cynnwys yr adolygiad blynyddol o gronfeydd wrth gefn.

## GOBLYGIADAU ARIANNOL

22 Trafodir y rhain yng nghorff yr adroddiad.

## ASESU RISG CYDRADDOLDEB

23 Bydd argymhellion yr adroddiad hwn, os cânt eu mabwysiadu, yn darparu ffordd gynaliadwy ymlaen o ran rheoli cronfeydd wrth gefn.

24 Mae’r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig, sy’n cynnwys defnyddio cronfeydd, wedi cael ei chynllunio i sicrhau nad oes unrhyw ostyngiad yn ansawdd y gwasanaethau rheng flaen, ac na fydd effaith anghymesur ar wahanol gategorïau o bobl.

## ARGYMHELLION

25 Argymhellir bod yr Aelodau'n:

(i) nodi cynnwys yr adroddiad mewn perthynas â'r cronfeydd sy'n cael eu dal gan awdurdodau;

(ii) cymeradwyo'r strategaeth yn Atodiad 1 fel sail ar gyfer rheoli cronfeydd defnyddadwy'r Awdurdod Tân ac Achub.

**ATODIAD 1**

# STRATEGAETH CRONFEYDD WRTH GEFN
# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

## CRONFEYDD WRTH GEFN SY'N CAEL EU DAL

Bydd yr Awdurdod yn cadw cronfeydd wrth gefn yn unol â'r ddeddfwriaeth gyfredol.

Bydd yr Awdurdod, lle bo modd, yn osgoi defnyddio cronfeydd wrth gefn i ariannu diffyg cyffredinol yn y gyllideb refeniw net gan fod hyn yn golygu sefyllfa ariannol anghynaliadwy.

Yn ogystal â chronfeydd gyffredinol, bydd yr Awdurdod yn cadw cronfeydd a glustnodwyd ar gyfer dibenion penodol pan fo hyn yn angenrheidiol er mwyn cwrdd â chostau un-tro â chyfyngiad amser arnynt sy'n gysylltiedig â mentrau neu ymrwymiadau penodol.

## ADRODD YNGHYLCH CRONFEYDD WRTH GEFN

Adroddir ynghylch cronfeydd wrth gefn yn y datganiad o gyfrifon yn unol â'r codau ymarfer ar gyfrifyddu sy'n berthnasol i'r Awdurdod.

Adroddir manylion pellach ynghylch y cronfeydd wrth gefn i'r Aelodau drwy gydol y flwyddyn, ond yn benodol wrth gytuno ar y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig; wrth adrodd ynghylch y sefyllfa alldro yn ystod y flwyddyn ac yn yr adroddiad ar berfformiad ariannol ar ddiwedd y flwyddyn a gyflwynir i'r Aelodau ym mis Mehefin.

Bydd yr wybodaeth a adroddir i'r Aelodau'n cynnwys:

- pwrpas y cronfeydd
- beth yw sail yr asesiad o lefel y cronfeydd sy'n cael eu dal
- trosglwyddiadau i mewn ac allan o'r cronfeydd
- amrywiadau'n codi rhwng lefelau mantoledig a lefelau gwirioneddol y cronfeydd.

## CYFRIFOLDEB A DIRPRWYO

Caiff y gwaith o greu, dileu, asesu pa mor ddigonol a throsglwyddiadau i mewn/allan o gronfeydd wrth gefn ei ddirprwyo i Drysorydd yr Awdurdod, a'i gymeradwyo gan yr Aelodau.

Caiff lefel y cronfeydd wrth gefn eu hasesu gan y Trysorydd o leiaf unwaith y flwyddyn fel rhan o'r broses o gau'r cyfrifon i lawr.